**Cofnodion Fforwm Derbyn, Ceredigion a gynhaliwyd yn Ystafell Teifi, Penmorfa, Ceredigion ddydd Iau, 7 Mawrth, 2019.**

**YN BRESENNOL:** y Cyngh. Catrin Miles (Cadeirydd), Philippa Davies (Rhiant-Lywodraethwr, Ysgol y Dderi), Peter Leggett (Pennaeth, Ysgol Gynradd Rhydypennau), Enid Brophy (Pennaeth, Ysgol Padarn Sant).

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:** Meinir Ebbsworth (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion/Prif Swyddog Addysg); Cheryl Evans (Swyddog Derbyn i Ysgolion) a Kay Davies (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd)

(14:00 – 14:55)

**1. Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd y Cyngh. Odwyn Davies (Cadeirydd y Pwyllgor Gorolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu), y Cyngh. Endaf Edwards (Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gorolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu), Carol Davies (Pennaeth Ysgol Dyffryn Cledlyn), Jane Wyn (Pennaeth Ysgol Bro Pedr) a Lodwick Lloyd (Llywodraethwr Ysgol) am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2. Gweithdrefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**3. Datgelu Buddiannau Personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol.

**4. Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2018**

Penderfynwyd cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2018 yn rhai cywir.

**5. Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2018**

2. Nodwyd nad oes rheidrwydd,yn ôl cyfansoddiad y Grŵp, i'r Prif Weithredwr fod yn aelod o'r Fforwm Derbyn i Ysgolion, ac y byddai Mr Barry Rees, Cyfarwyddwr Corfforaethol yn mynychu cyfarfodydd pe na bai'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol dros Ysgolion yn medru mynychu.

6.i. Nodwyd bod y ddogfen 'Gwybodaeth i Rieni' wedi ei hanfon yn electronaidd at Aelodau.[1]

6.ii. Adroddodd y Swyddog Derbyn i Ysgolion nad oedd hi'n bosibl addasu'r system ar lein i drosglwyddo disgyblion o un ysgol i'r llall. Nid yw'r ysgol y mae'r disgybl yn cael ei throsglwyddo ohoni yn cael gwybod am fwriad y rhieni. Roedd rhai o aelodau'r Fforwm yn poeni mai ychydig iawn o gyfle oedd gan ysgolion, felly, i fynd i'r afael â'r mater gyda'r rhai oedd yn rhan o'r broses drosglwyddo. Cytunwyd i fonitro'r sefyllfa.

11. Cadarnhawyd y byddai cyfarfodydd y Fforwm yn parhau i gael eu cynnal yn ystod y dydd.

[1] https://www.ceredigion.gov.uk/media/3060/gwybodaeth-i-rieni.pdf

## 6. Y Ddogfen 'Gwybodaeth i Rieni'

Nododd y Swyddog Derbyn i Ysgolion fod fersiwn ddiwygiedig o'r ddogfen 'Gwybodaeth i Rieni' wedi ei dosbarthu. Mae data'n cael ei gasglu ar hyn o bryd mewn perthynas â nifer yr ymweliadau â'r we-dudalen. Bydd hyn yn rhoi sail i fonitro data wrth i amser fynd yn ei flaen.

Nodwyd nad yw'r system 'Ddi-arian' bresennol wedi ei chynnwys yn y ddogfen, gan nad yw pob ysgol yn gweithredu'r system hon. Rhagwelir y bydd modd ei chynnwys yn fersiwn nesaf y ddogfen. Nodwyd bod taliadau ar lein i gael eu hystyried ynghyd â systemau di-arian ar draws yr holl ysgolion. Nodwyd bod y system yn un ddrud i'w gosod yn ei lle. Serch hynny, gan y byddai holl drafodion ariannol ysgol yn ddi-arian, yna ni fyddai mwyach angen trafod arian cinio, arian ar gyfer teithiau ysgol ayb. Mae systemau di-arian wedi lleihau ciwiau yn ffreuturiau ysgolion ac maent yn boblogaidd er bod llawer o'r farn na fydd rhai disgyblion yn dysgu delio gyda'u harian gystal â'r rhai hynny sydd wedi gorfod trin arian parod yn y gorffennol. Mae'r mater hwn i'w drafod mewn man arall.

CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 7. Polisi Derbyn i Ysgolion 2020-2021

Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Polisi Derbyn I Ysgolion ar gyfer 2020-2021. Ychydig o newid a fu i'r polisi a chaiff ei gyflwyno gyda hyn i'r Cabinet.

Nodwyd bod y cyswllt wedi ei dynhau'n ddiweddar gyda'r teuluoedd hynny sydd wedi dewis addysgu eu plant gartref ac sy'n wybyddys i'r Awdurdod. Hysbyswyd y Fforwm nad oes goblygiad cyfreithiol ar deuluoedd i gofrestru gyda'r Awdurdod ond fe'i ystyrir yn arfer da i wneud hynny. Ar hyn o bryd mae 170 o blant / pobl ifanc y mae'r Awdurdod yn ymwybodol ohonynt. Serch hynny, mae 20 wedi dychwelyd i ysgolion yn ystod y tymor ysgol diwethaf. Mewn rhai achosion o addysgu gartref, nid oedd safonau'n cael eu cynnal, felly roedd yr Awdurdod yn gallu herio rhieni/gwarcheidwaid ac arweiniodd hyn at benderfyniad i anfon eu plant/pobl ifanc i'r ysgol.

Pan fo teuluoedd yn gadael yr ardal am gyfnod estynedig, erbyn hyn cofnodir y rhesymau pam eu bod yn cael eu dad-gofrestru.

Cytunwyd i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 8. Niferoedd Blwyddyn 7 ar gyfer Ysgolion Uwchradd – Medi 2019.

Roedd rhestr niferoedd blwyddyn 7 ysgolion ar gyfer Medi 2019 wedi ei dosbarthu. Dywedodd y Swyddog Derbyn i Ysgolion nad oedd y rhestr yn gyflawn, gan fod 15 disgybl arall yn dal heb ymgeisio. Bydd y rhesymau dros yr oedi yn cael eu gwirio a chaiff cymorth ei gynnig os bydd angen. Nodwyd bod Ysgol Bro Teifi wedi cyrraedd y nifer llawn ar gyfer y flwyddyn tra bo niferoedd

Blwyddyn 7 ysgolion Penglais a Phenweddig wedi gostwng ar gyfer Medi 2019 a Medi 2020, ond rhagwelir y byddant yn cynyddu y flwyddyn ganlynol.

Nodwyd bod arian sylweddol wedi ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru tuag at Ysgol Henry Richard sy'n awgrymu fod Llywodraeth Cymru yn cefnogi cadw ysgolion uwchradd mewn ardaloedd gwledig. Mae rhifau derbyn Ysgol Henry Richard yn ymddangos yn isel ar gyfer mis Medi, serch hynny mae yna nifer sylweddol o blant yn y dosbarth meithrin a bydd hyn yn cael effaith ar nifereoedd blwyddyn 7 mewn ychydig o flynyddoedd.

CYTUNWYD i nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

**9. Apeliadau Canol Blwyddyn 2018-19**

Dywedwyd wrth y Fforwm bod 2 apêl wedi eu cynnal yn ddiweddar, un yn Ysgol Uwchradd Aberteifi a'r llall yn Ysgol T Llew Jones, a chefnogwyd y ddwy apêl. Nodwyd mai panel annibynnol sy'n dod i benderfyniad mewn apeliadau ac nid yr Awdurdod Lleol.

**10. Unrhwy fater arall**

i. Nodwyd bod gan Ysgol Padarn Sant ei system dderbyn ei hun. Mae'r polisi yn y broses o gael ei ddiweddaru a byddai'n cael ei anfon at y Swyddog Derbyn i Ysgolion i'w wirio cyn cael ei gyflwyno i'r esgboaeth ym mis Medi 2019

ii. Cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf ar 13 Mehefin 2019. Cynhelir y cyfarfod yn ystafell Ystwyth am 2pm.